Archwilio Cymru
Audit Wales

**Cyfeirnod:** IR826

**Dyddiad cyhoeddi:** 09 Mehefin 2022

# Cofrestr Gontractau

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 10 Mai 2022, lle gofynnoch am wybodaeth ynghylch ein Cofrestr Gontractau.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiwn isod mewn print trwm ac wedi nodi ein hymateb cyfatebol.

**Dylai'r gofrestr gontractau LAWN ddangos holl gontractau presennol/byw'r sefydliad. Hoffwn i'r gofrestr arddangos y colofnau/penawdau canlynol:**

1. **Cyfeirnod y Contract -Y cyfeirnod unigryw sy'n gysylltiedig â'r contract.**
2. **Teitl y Contract**
3. **Categori Caffael –Nodwch enw categori'r contract, hoffwn wybod o dan ba gategori y mae'r contract.**
4. **Enw'r Cyflenwr**
5. **Gwariant (Cyfanswm, Bob blwyddyn neu werth y contract)**
6. **Hyd y Contract**
7. **Estyniadau i'r Contract**
8. **Dyddiad Dechrau'r Contract**
9. **Dyddiad Dod i Ben y Contract**
10. **Disgrifiad o'r Contract [A fyddech cystal â rhoi cymaint o fanylder â phosibl i mi.]**
11. **Perchennog y Contract (y Person sy'n rheoli'r gofrestr gontractau)**
12. **Codau'r Eirfa Gaffael Gyffredin (CPV)/Pro-Class**

**Manylion Cyswllt ar gyfer Data Contractau/rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API)**

**1. A allwch chi hefyd roi manylion cyswllt y person sy'n gyfrifol am y gofrestr gontractau wirioneddol neu rywun sy'n gyfrifol am API i mi? [Enw, Teitl Swydd, Ffôn, Cyfeiriad E-bost] Rhowch deitl gwirioneddol ei swydd i mi o leiaf.**

***(Ystyr API yw "set o swyddogaethau a gweithdrefnau sy'n galluogi creu cymwysiadau sy'n cyrchu nodweddion neu ddata system weithredu, cymhwysiad neu wasanaeth arall.")***

**PWYSIG**

**1. Os oes gan y sefydliad system CRM neu system debyg, dylai fod cyfleuster i lawrlwytho a thynnu data am gontractau.**

**2. Gallwch anfon Gwe-gyswllt ataf i borth i lawrlwytho’r gofrestr gontractau, gwnewch yn siŵr bod holl gontractau’r sefydliad yn cael eu darparu; wrth wneud ymchwil flaenorol, rwyf wedi canfod mai dim ond cyfran fach o'u holl gontractau y mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi'u lanlwytho.**

**3. Ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n bwriadu gwneud eithriad ynghylch gwariant, mae'r wybodaeth am wariant yr wyf wedi gofyn amdani yn ffigur cyffredinol ac nid wyf yn gofyn am ddadansoddiad cyflawn o'r gwasanaethau sy'n ymwneud â'r gwariant.**

**Rhowch ffeil y gofrestr gontractau i mi ar fformat Excel.**

Rydym yn cadw rhywfaint o wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani uchod, ac mae taenlen wedi'i hatodi sy'n cynnwys yr wybodaeth a gedwir. Sylwch nad ydym yn cofnodi cod CPV.

Mae’r holl gontractau yn cael eu rheoli gan ein Hadran Gwasanaethau Busnes yn Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, Business.Services@audit.wales, 02920 320500.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau ynghylch y modd yr wyf wedi ymdrin â’ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,
Y Swyddog Gwybodaeth

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Facilities - Maintenance | Security services at Cathedral Road | C01415 | Securitas Security Services (MS) Ltd | 01/04/2021 | 31/03/2023 | -1 | 2 years | n/a | n/a | 3 | 31/12/2022 | | 90 | 20,000 | 40,000 |
| Facilities - Maintenance | Keyholding, patrol and response | C01547 | G4S Secure Solutions UK Ltd | 25/06/2021 | 24/06/2022 | -1 | | See notes | | 3 | 24/03/2022 | | 90 | 500 | 500 |
| Facilities - Maintenance | Annual maintenance of Fire | C02070 | Securitas Security Services UK Ltd | 01/04/2021 | 31/03/2023 | -1 | 2 years | n/a | n/a | 3 | 31/12/2022 | | 90 | Inc in row 84 | Inc in row 84 |
| Facilities - Maintenance | Intruder Alarm - Annual monitoring | C01679 | Snowdonia Fire Protection Ltd | 01/08/2021 | 31/07/2023 | 1 | 2 year | | | 3 | 01/05/2023 | 38 | 90 | 1,800 | 3,600 |